

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-
NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 30AIN O FEDI 2019 YN YSGOL
BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Stanley Williams, Arwel Davies, Philip Williams, Hywel Davies, Iwan Jones, Geraint Jones, Cyngorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Bari Evans a Falmai Evans.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim yn codi.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 29ain o Orffennaf 2019 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Yn dilyn presenoldeb yn cyfarfod blaenorol y Cyngor derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Ben Wilcox-Jones, Uwch Beiriannydd Diogelwch y Ffyrdd a thrafnidiaeth Cyngor Sir Ddinbych, fod y Cyngor Sir wedi prynu arwydd symudol "Vehicular Activated Sign" ac mi fydd ar gael dros dro i'r Cyngor Cymuned Llanrhaeadr o'r 23ain o Hydref 2019.

Penderfynwyd yr aelodau i dderbyn yr arwydd a'r polisi ac mi fydd y Cyngorydd Bari Evans yn gyswllt y Cyngor Cymuned gyda'r Cyngor Sir.

B. Derbyniwyd adroddiad Mr Adam Turner, Swyddog Cynllunio a Chydymffurfiaeth Cyngor Sir Ddinbych, nad oes angen cais cynllunio ar y mynediad newydd i'r cae amaethyddol wrth Ysgol Bro Cinmeirch a gyferbyn a'r Lodge yn Llanrhaeadr.

C. Mae'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych wedi trwsio'r tyllau'r ffyrdd yn y gymuned erbyn hyn.

5. SEDD WAG Y CYNGOR.

Nid derbyniwyd y Clerc unrhyw gais o'r etholwyr y Gymuned i lenwi'r sedd wag ar y Cyngor ac mi fydd yn trefnu hysbyseb newydd o'r sedd wag y Cyngor i'w thrafod yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

6. WEFAN Y CYNGOR.

Ar ôl trafodaeth penderfynwyd rhoi caniatâd i'r Cadeirydd gysylltu â Hannah Gwenllïan o'r Cwmni H G Wen Designs o Bala ynglŷn â'r adnewyddu'r Wefan y Cyngor.

7. CYLLID.

A, Datganiad Banc £16,082.60.

B. Derbyniwyd ail ran o'r Precept 2019/2020 - £4,168.00.

C. Penderfynwyd yr Aelodau i dalu'r canlynol:-

1. Un Llais Cymru – Ffi Cynhadledd Flynyddol 5ed Hydref 2019 (Cyngorydd Philip Williams) £100.00.

2. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2019 £480.00.

3. HMRC am PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2019 £120.00.

4. Pwyllgor Gymuned Llanrhaeadr o'r Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 am gefnogaeth arian 2019/2020 - £1,000.00.

8. CRONFEYDD ARIAN FFERMYDD WYNT BRENIG A CHOEDWIGAETH CLOCAENOG.

Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd am y syniad o ymuno a Chymuned Gymunedol leol i gyflogi "Rheolwr Prosiect" bydd yn gyfrifol am gymorth a llenwi'r ceisiadau priodasol am gymorth ariannol o'r cronfeydd Ffermydd Wynt Brenig a Choedwigaeth Chlocaenog. Derbyniwyd yr aelodau'r syniad a chytunodd y Cadeirydd i wneud ymholiadau bellach.

9. CYNLLUN DDATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH 2018-20233 - YMGYNGHORIAD YNGHYLCH Y STRATEGAETH A FFAFRIR DRAFFT.

Derbyniwyd yr Aelodau gopi o'r sylwadau'r Cadeirydd yn gwrthwynebu'r datblygiad am ychwaneg o dai yn yr "Cynllun Ddatblygu Lleol Sir Ddinbych" nesaf (gwelir atodiad). Penderfynwyd yr aelodau i dderbyn yr adroddiad ac i'r Clerc gyrru'r sylwadau ymlaen i Gyngor Sir Ddinbych.

10. MATERION CYNLLUNIO.

A. Dymchwel estyniadau presennol a chodi estyniadau newydd i ddrychiadau dwy ochr yr annedd bresennol yn Rhewl Cottage, Prion – dim gwrthwynebiad.

B. Cais cynllunio tystysgrif datblygiad cyfreithion bresennol ar gyfer newid defnydd rhan o adeilad i'r annedd sengl yn Apartment Hen Sied, Llanrhaeadr.

Penderfynwyd yr aelodau i wrthwynebu'r ddau gais ar y sail:-

1: Mae'r adeilad yn adeilad amaethyddol ac nid yn adeilad busnes sydd ddim yn cydffurfio gyda rheolau adeiladu.

2. Nid mae'r safle yn y Cynllun Ddatblygu Lleol.

3. Ni does yna profiad o'r angen lleol i'r datblygiad.

C. Chadarnhad apêl a'r Arolygiaeth Gynllunio i'r cais cynllunio i "Cadw a newid a defnydd o flocc amwynder i adeilad amaethyddol er mwyn storio offer a pheiriannau sy'n ymwneud a rheoli'r tir ar safle Caer Mynynydd Caravan Park yn Saron.

D. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. 23/2019/0610 – Ffrith Fedw, Prion.

2. 23/2019/0453 – Ffynnon Sant Dyfnog, Llanrhaeadr.

3. 23/2019/0411 – Meifod, Saron.

4. 23/2019/0499 – Llwyn Uchaf, Llanrhaeadr.

11. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

12. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y chanlynol:-

A: Gwli ffordd wedi tagu rhwng Rhewl Valley a Tan-y-Garth ym Mhrion.

B. Tyllau yn y ffordd rhwng Bryn Mulan a Pen-y-Groes ym Mhrion.

C. Gwrych eisiau ei thorro ar y gyffordd gyferbyn a'r Capel Saron.

13. MATERION BRYN O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH
LEOL 1972.

A. Cytunodd y Cynghorydd Arwel Davies gysylltu ag Eryl Roberts o Gwmni Jones Brothers i estynni'r safle parcio ochr y ffordd yn Ysgol Pant Pastynog, Prion.

B. Derbyniwyd adroddiad Pwyllgor Ardal Siroedd Conwy/Dinbych diweddar oddi wrth y Cynghorydd Philip Williams..

C. Derbyniwyd adroddiad diweddara oddi wrth y Cynghorydd Elfed Williams ynglŷn:-

1. Chludiant Bws dis glybion Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy o Lanrhaeadr.
2. Prosiect Ffynnon Dyfnog yn Lanrhaeadr.

14. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos lun 28ain o Hydref 2019 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.